CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION TACHWEDD 20, 2018

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth**
**Nos Fawrth, Tachwedd 20, 2018 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 16, 2018**

Wedi cywiro roedd Llion Rh. Williams yn absennol, cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 16, 2018**

Eitem 10.c. Llythyr (9/11/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y bin halen wrth Aran Hall yn cael ei symud a bydd y bin halen wrth Abergeirw Bach yn cael ei lenwi.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (15/10/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud i agor cwteri sydd wedi cau ar ffordd Bontnewydd – Llanfachreth. (Gweler Cofnodion Eitem 10.c.1. Cofnodion Medi 18, 2018).

b. Llythyr (19/19/2018) oddi wrth Liz Saville Roberts AS yn rhoi gwybod bydd Bore Coffi yn Tŷ Siamas ar 2/11/2018 am 10.30 – 12.30. Yn bresennol bydd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu.

c. Llythyr (22/10/2018) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith archwilio Pont yn Rhydymain ar ffordd A494 yn digwydd ar ddydd Sul, Tachwedd 4, 2018 rhwng 7.00 a 11.00yb.

ch. Llythyr (23/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda phedwar dogfen am yswiriant allai fod o ddiddordeb i ni.

d. Llythyr (23/10/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd:
Cynhadledd Arfer Arloesol a Gwobrau dydd Iau, Mawrth 28,2019,
Cynhadledd Arfer Arloesol dydd Mercher, Gorffennaf 10, 2019.
Cynhadledd Genedlaethol a Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol dydd Sadwrn, Hydref 5, 2019.

dd. Llythyr (25/10/2018) arall oddi wrth Ymddiriedolaeth Cofeb Rhyfel (War Memorial Trust). Maent wedi cael gwybod gan unigolyn nid ydym am wneud gwaith i wella'r cyflwr yr enwau sydd ar Cofeb Rhyfel Llanfachreth. Mae cyflwr llythrenau plwm ar y gofeb wedi dirywio yn gwneud yr enwau yn aneglur. Maent o'r farn y ni fel cyngor lleol sy'n gyfrifol am y Gofeb. Maent yn cynnig ein helpu ac yn gofyn os mae cynllun i wneud gwaith cadwraeth. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r Cyngor ar www.warmemorials.org/helpsheet Mae grant ar gael i wneud gwaith ond mae galw mawr am ei gael. Mae gwybodaeth sut i wneud cais am grantiau ar gael ar www.warmemorials.org/grants a ffurflen ar www.warmemorials.org/pre-ap . Mae angen gwneud cais am grant cyn gwneud gwaith. Amgáu mae copi o 'Parliamentary Acts related to war memorials'.

e. Llythyr (6/11/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru gyda Adroddiad Argymhellion Terfynol, Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gwynedd. Mae'r wybodaeth ar eu gwefan:
http://ldbc.gov.wales/reviews/electoralreviews/currreviews/gwynedd-final/?skip=1&lang=cy

f. Llythyr (9/11/2018) oddi wrth Swyddfa Etholaeth Blaid Cymru yn rhoi gwahoddiad i ddigwyddiad ym Mlaenau Ffestiniog i Gofio Gwrthwynebwyr Cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r digwyddiad yn Capel Bowydd, Blaenau Ffestiniog ar 17/11/2018 am 9.30yb.

g. Llythyr (15/11/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod nesaf o Bwyllgor Ardal Meirionnydd ar Tachwedd 28 am 7.00yh yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau. Amgáu mae Agenda (bydd cyflwyniad gan gwmni yswiriant), Cofnodion cyfarfod Medi 26, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair ym Muallt ar Medi 14.

h. Llythyr (20/11/2018) oddi wrth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae gan gynnghorau tref a chymuned gogledd Cymru gofynion ymwneud a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynwys llunio adroddiad blynyddol ar gyfer ein cymuned. Os mae diddordeb, maent yn cynnal gweithdy i ystyried cynlluniau Llesiant yn Canolfan Gymunedol Bodelwyddan, Bodelwyddan ar Tachwedd 230 am 10.00yb.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri(**

a. Ceisiadau cynllunio:

a. NP5/54/565. Cynllunio Trydan-dŵr (100kw) yn cynnwys argae wedi ei ailwampio, pibell wedi ei rhanol gladdu, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad i'r grid wedi ei gladdu. Afon Celynog Isaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. NP5/54/566. Cynllun Trydan-dŵr (100kw) yn cynnwys argae, pibell wedi ei gladdu, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad i'r grid wedi ei gladdu. Afon Celynog Uchaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

**8. Materion Ariannol**

a. Bil (26/10/2018) am £144.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2017/2018.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Derbyniwyd (16/10/2018) ad-daliad o £490.30 oddi wrth Cyngor Gwynedd am glirio llwybrau cyhoeddus yn 2018/2019.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Hydref 2018: £1,137.62.

ch. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2018: £6,804.43. .

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Anfonwyd llythyr (19/11/2018) i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae diffyg yn y gwter i gymryd dŵr gan achosi iddo gasglu wrth fynedfa i Cae Glas, Llanfachreth ac yn creu peryglon i draffig pryd bydd rhew.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg. Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y Rhaglen Asesiad Risg. Diolchwyd i Elfed ap Gomer, Cyngor Cymuned Llanelmtyd, am lunio'r ddogfen.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen gwella'r llinellau ffordd trwy Brithdir.

c. Roedd trigolion Rhydymain yn canmol gwaith Meurig Ashton i drwsio'r hysbysfwrdd yn Rhydymain.

Llofnod: Dyddiad: